**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO** |
| **PWNC:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO - DYDD MAWRTH, 29 MEHEFIN 2021 DYDD MAWRTH, 29 MEHEFIN 2021** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL: T. EDWARDS (CADEIRYDD)

Cynghorwyr:
S. Healy (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
D. Davies
D. Hancock
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
J. Millard
M. Moore
J. C. Morgan
K. Rowson
S. Thomas
H. Trollope
M. Veale

A:

| **EITEM** | **PWNC** | **GWAITH** |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Summers ac L. Winnett. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PENODI CADEIRYDD 2021/22</u>**<br><br>Gwahoddwyd enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar gyfer 2021/2022.<br><br>Cynigiodd Aelod bod Mr. Terry Edwards yn cael ei benodi i'r swydd, ac eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>PENDERFYNWYD penodi Mr. Terry Edwards yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar gyfer 2021/2022. | |
| **No. 5** | **<u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u>**<br><br>Yn dilyn trafodaeth,<br><br>PENDERFYNWYD parhau i gynnal cyfarfodydd am 9.30 a.m. | |
| **No. 6** | **<u>PWYLLGOR ARCHWILIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2021.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 5 y cofnodion, sef y drafodaeth am nifer y Swyddogion sy'n gadael yr Awdurdod, a dywedodd i'r Rheolwr Archwilio a Risg nodi y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad risg ac y byddid yn nodi'r sylwadau a wnaed gan Aelodau.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 7** | **<u>DALEN WEITHREDU – 27 EBRILL 2021</u>**<br><br>Nid oedd unrhyw gamau gweithredu yn deillio o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2021. | |
| **No. 8** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH 2021-22 Y PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg. | |

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Flaenraglen Gwaith y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar gyfer 2021-22, a roddir yn Atodiad 1.

Gofynnodd Aelod y dylai'r risg i'r Awdurdod yng nghyswllt nifer y Swyddogion sy'n gadael a salwch staff gael eu hychwanegu at y Flaenraglen. Gofynnodd hefyd am sicrwydd y cynhelir cyfweliadau gadael.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio a Risg fod y Flaenraglen yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, byddai'r materion a godwyd gan yr Aelod yn dal o fewn cylch gorchwyl y Cynllun Archwilio a gyflwynir i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Cyfeiriodd Aelod at oblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i'r Pwyllgor a gofynnodd os yr adroddiad Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor cyn mis Mai 2022.

Mewn ymateb esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y Flaenraglen yn seiliedig ar flynyddoedd flaenorol, fodd bynnag gall newid a symud drwy gydol y flwyddyn i roi ystyriaeth i eitemau ychwanegol ac yn y blaen.

Gofynnodd Aelod arall am sicrwydd y byddai'r Swyddogion perthnasol yn bresennol pan ddeuir ag adroddiad Archwilio Cymru ar Silent Valley i'r Pwyllgor i'w ystyried.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau na fedrai roi sylw ar pryd y gellid disgwyl yr adroddiad ond rhoddodd sicrwydd y byddai'r Swyddogion perthnasol yn bresennol pan gyflwynir yr adroddiad.

Dywedodd Swyddog Archwilio Cymru na fedrai roi data ar gyfer cyflwyno adroddiad Silent Valley ond cadarnhaodd y cafodd yr adroddiad yn awr ei gylchredeg i'r unigolion a nodir yn yr adroddid ar gyfer sylwadau. Cadarnhaodd hefyd y caiff Cynllun Archwilio Archwilio Cymru ei gyflwyno i gyfarfod arbennig y Pwyllgor ar 27 Gorffennaf 2021.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y diwygiadau uchod, i dderbyn yr adroddiad a chytuno ar y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio (Opsiwn 2).

| | | |
|---|---|---|
| **No. 9** | **<u>COD LLYWODRAETHIANT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio a Risg y Cod Llywodraethiant diwygiedig i gael ei gymeradwyo (Atodiad 1). Caiff y Cod Llywodraethiant ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau ei fod yn adlewyrchu trefniadau llywodraethiant presennol yr Awdurdod, a'i fod yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer cynhyrchu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. Cadarnhaodd y Swyddog y rhoddir adroddiad ar y drafft Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf.<br><br>Tynnodd y Swyddog sylw at y tri phrif faes o newid o fewn y Cod Llywodraethiant fel sy'n dilyn:<br><br>• Egwyddor Graidd A, cafodd rhai diwygiadau eu gwneud i'r Datganiadau Deilliant a ddatblygwyd fel canlyniad i'r adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol a gynhaliwyd yn ystod 2020;<br>• y Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2020-25 newydd yn gysylltiedig gyda Strategaeth Fasnachol y Cyngor 2020-24; a<br>• diweddarwyd y ddogfen i adlewyrchu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a newidiadau olynol ar gyfer y Pwyllgor.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog fod y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol wedi ystyried y Cod Llywodraethiant diwygiedig i sicrhau ei fod yn adlewyrchu fframwaith llywodraethiant yr Awdurdod; fodd bynnag, rhoddodd sicrwydd mae'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Cod Llywodraethiant.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r Cod Llywodraethiant diwygiedig (Opsiwn 1). | |
| **No. 10** | **<u>DIWEDDARU'R POLISI AR BRYDERON A CHWYNION</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol yr adroddiad sy'n amlinellu'r polisi a ddiweddarwyd | |

| | | |
|---|---|---|
| | ar Bryderon a Chwynon.<br><br>Fel rhan o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, dywedodd y Swyddog y cafodd Awdurdod Safonau Cwynion newydd ei greu. Cyhoeddwyd polisi ac arweiniad dan y pwerau a gynhwysir o fewn Adran 36 y Ddeddf ac maent yn weithredol ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Awdurdod wedi llunio polisi enghreifftiol ar Bryderon a Chwynion ac mae disgwyliad y bydd awdurdodau cyhoeddus yn mabwysiadu'r polisi enghreifftiol o sicrhau y caiff cwynion eu trafod mewn modd cyson ledled Cymru. Daethpwyd â'r drafft bolisi i'r Pwyllgor cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf.<br><br>Esboniodd y Swyddog bod angen i'r Cyngor roi data am gwynion yn chwarterol i'r Awdurdod a rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar y nifer a'r mathau o gwynion a gafwyd, eu canlyniadau ac unrhyw gamau unioni a gymerwyd fel canlyniad. Mater i'r Cyngor yw penderfynu pa mor aml y dylai dderbyn adroddiadau o'r fath; fodd bynnag, dylai hyn fod o leiaf unwaith y flwyddyn.<br><br>Atebodd y Swyddog hefyd y byddai gan y Pwyllgor yn awr swyddogaethau ychwanegol i gynnwys trosolwg ar gyfer cwynion ac y byddai ganddo bwerau statudol i:<br><br>• Adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i drin cwynion yn effeithlon; a<br><br>• Gwneud adroddiadau ac argymhellion yng nghyswllt gallu'r Awdurdod i drin cwynion yn effeithlon.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod y Polisi yn cyfeirio at gwynion gwasanaeth ac nid cwynion yn ymwneud ag ymddygiad sydd wedi eu lleoli o fewn y Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, esboniodd y Swyddog y caiff cwynion am wasanaethau eu cyfeirio i'r Adran sy'n gyfrifol am y gwasanaeth, a gobeithir eu datrys ar gam cynnar. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl caiff ei uwchgyfeirio.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y ffaith fod gan ysgolion eu gweithdrefnau cwynion eu hunain ar waith a gofynnodd os y byddai'r rhain yn gydnaws gyda'r polisi newydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cadarnhaodd y Swyddog fod Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd Addysg wedi mabwysiadu eu gweithdrefnau cwynion eu hunain. Byddai gwaith yn cael ei wneud yn y dyfodol i adolygu holl weithdrefnau cwynion y Cyngor i sicrhau cysondeb gyda safonau gofynnol yr Awdurdod Safonau Cwynion newydd, ac i adolygu'r dogfennau hynny yn barhaus.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y swyddogaeth ychwanegol i'r Pwyllgor dderbyn cwynion yn erbyn yr Awdurdod a gofynnodd os y byddai hyn yn cynnwys cwynion yng nghyswllt Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Dywedodd y Swyddog y caiff cwynion yn y meysydd hynny eu hadrodd i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau trosolwg effeithlon ar yr holl weithdrefnau cwynion, bwriedir dod â nhw i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio. Cadarnhaodd y Swyddog y caiff hyn ei drafod gyda'r Adrannau.<br><br>Dywedodd yr Aelod nad oes unrhyw sôn y gallai person enwebu llefarydd i weithredu ar eu rhan ac awgrymodd y dylid cynnwys hyn o fewn y polisi.<br><br>Nododd y Swyddog sylw'r Aelod.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar y diwygiad uchod, y dylid derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn cytuno i'r wybodaeth a gynhwysir o fewn y polisi Pryderon a Chwynion cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor, ac y dylid cyflwyno adroddiad am gwynion at y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn ym mis Hydref a mis Ebrill bob blwyddyn (Opsiwn 2). | |
| **No. 11** | **<u>ADRODDIADAU AC ARGYMHELLION ARCHWILIO CYMRU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Archwilio Cymru.<br><br>Cyflwynodd Swyddog Archwilio Cymru lythyr a anfonwyd at yr holl Gynghorau yn eu hysbysu am fwriad Archwilio Cymru i adolygu'r trefniadau adrodd sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn cael dull gweithredu mwy cyson. Byddai Archwilio Cymru yn cysylltu gyda Chynghorau i sicrhau y caiff pob adroddiad eu cyflwyno i Bwyllgor ac y symudir ymlaen ag argymhellion. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd Aelod y gall y trefniadau newydd effeithio ar yr amserlenni a nodir yn y Flaenraglen Gwaith.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn adroddiad Archwilio Cymru a chydnabod yr wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |